# Artistiaid Dyffryn Dyfrdwy

## Nodiadau Canllaw i Athrawon

### Amcanion Dysgu

- Deall gwahanol fathau o waith celf a sut i ddadansoddi paentiadau
- Ymchwilio i artistiaid enwog a ymwelodd â Dyffryn Dyfrdwy a deall pam roeddent yn gweld yr ardal mor arbennig
- Datblygu meddwl yn feirniadol a gallu gwerthuso ac adlewyrchu ar eich gwaith eich hun yn ogystal â gwaith eraill
- Datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol, ymchwilio a gwerthuso

### Adnoddau

- Gwefan Art UK
- Paentiadau o Ddyffryn Dyfrdwy o'r 18fed a'r 19eg Ganrif
- Taflen Adlewyrchu ar Waith Celf





### Cyfarwyddiadau ar gyfer y Gweithgaredd

Ymchwilir i baentiadau o Ddyffryn Dyfrdwy a grëwyd yn ystod yr oes ddarluniadwy, er mwyn dysgu mwy amdanynt a sut oedd bobl yn edrych ar y tirlun. Bydd dysgwyr yn defnyddio esiamplau o baentiadau hanesyddol i **adlewyrchu** arnynt a'u dadansoddi. Byddent yn **ymateb** trwy ddefnyddio'r rhain fel ysbrydoliaeth i greu eu gwaith celf eu hunain. Yna byddent yn **gwerthuso** eu gwaith eu hunain yn ogystal â gwaith dysgwyr eraill.

#### Oes Darluniadwy

Yn y 18fed a'r 19eg ganrif, ymwelodd nifer o artistiaid enwog yr ardal er mwyn paentio'r tirlun hardd. Roedd 'Darluniadwy' yn symudiad newydd a oedd yn golygu, golygfa a fyddai'n gwneud paentiad. Roedd yn cyfeirio at fath arbennig o dirlun gydag apêl artistig, gan ei fod yn hardd ond hefyd gydag elfennau o wylltineb. Defnyddiwyd 'darluniadwy' mewn ffyrdd eraill hefyd, gan ddylanwadu ar ddylunio gerddi a thirlun.
Cafodd artistiaid eu hysbrydoli i drin y tirlun yn fynegiannol gan yr artist Cymreig Richard Wilson. Yn y genhedlaeth ar ôl Wilson, roedd teithio Cymru yn brofiad trawsnewidiol ar gyfer nifer o beintwyr, gan gynnwys J.M.W Turner, a ddaeth am y tro cyntaf yn 17. Fe wnaeth baentio yn Nyffryn Dyfrdwy, ynghyd â nifer o artistiaid eraill, ac mae wedi parhau i ddenu artistiaid byth ers hynny.

### Syniadau Gweithgareddau Cychwynnol:



**Edrychwch** ar wahanol fathau o gelf ar wefan Art UK.

**Trafodwch** y gwahanol fathau o gelf mae pobl yn creu.

**Trafodwch** pa waith celf rydych yn ei hoffi orau a pham.

### Syniadau Gweithgareddau Eraill:



Gwahoddwch ddosbarthiadau eraill i weld y gwaith ac anogwch y dysgwyr i egluro eu gwaith i bobl eraill, eu dewis o ran cyfrwng, beth mae'r gwaith celf yn ei gynrychioli. Gofynnwch am adborth gan ddosbarthiadau eraill.

Darganfyddwch fwy am yr artistiaid a greodd y paentiadau hanesyddol, y mathau eraill o gelf fe wnaethon nhw ei greu a'r cyfnod yr oeddent yn byw.

Ymchwiliwch i artistiaid Cymreig modern.

### Briff ar gyfer Dysgwyr:



**Adlewyrchu**
Dewiswch baentiad hanesyddol o Ddyffryn Dyfrdwy ac atebwch y cwestiynau i werthuso'r paentiad gan ddefnyddio'r Daflen Adlewyrchu ar Waith Celf.

**Ymateb**
Gan ddefnyddio ysbrydoliaeth o'r paentiadau hanesyddol, crëwch eich gwaith celf eich hunain mewn ymateb. Meddyliwch am y cwestiwn, "Beth yw eich tirlun perffaith?" Gall y gwaith celf fod yn ffurf collage, llun, paentiad neu gyflwyniad digidol ar y cyfrifiadur. Cymerwch ysbrydoliaeth o'ch Taflen Adlewyrchu a byddwch yn fynegiannol a chreadigol. Beth ydych chi eisiau ei fynegi neu gynrychioli? Ai teimlad? Y tirlun cyfan neu rhan o'r tirlun yn unig? Pam wnaethoch chi ddefnyddio'r cyfrwng penodol o gelf? Beth allwch chi alw'r darn o gelf?

**Gwerthuso**
Defnyddiwch y Daflen Adlewyrchu ar Waith Celf i werthuso eich gwaith eich hun yn ogystal â gwaith eraill yn yr un modd â'r gweithgaredd adlewyrchu. Crëwch arddangosfa dosbarth ac yna cyflwynwch eich gwaith i'r dosbarth.

# Paentiadau o Ddyffryn Dyfrdwy o'r 18fed a'r 19eg Ganrif

## Richard Wilson



R. Wilson
Dinas Brân o Langollen, crëwyd ym 1770-71
© Wikimedia Commons Google Art Project, Yale Centre for Public Art



R. Wilson
Golygfa ger Wynnstay, crëwyd ym 1770-71
© Wikimedia Commons Google Art Project, Yale Centre for Public Art

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site



# Paentiadau o Ddyffryn Dyfrdwy o'r 18fed a'r 19eg Ganrif

## J. M. W. Turner



J. M. W. Turner
Dinas Brân, gyda'r Ddyfrdwy yn y blaendir, 1798
© Tate Creative Commons CC-BY-NC-ND (3.0 Unported)



J. M. W. Turner
Abaty Glyn y Groes, gyda Dinas Brân, 1794-5
© Tate Creative Commons CC-BY-NC-ND (3.0 Unported)

Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# 18th and 19th Century Paintings of the Dee Valley

## John Ingleby



J. Ingleby

Eglwys y Waun, y Ddyfrbont a'r Castell, 1795

© Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales

## Moses Griffiths



M. Griffiths

Dyfrbont Pontcysyllte'n Cael ei Hadeiladu, tua 1800

© Amgueddfa Cymru National Museum Wales

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# 18th and 19th Century Paintings of the Dee Valley




## G. Arnold

G. Arnold
**Dyfrbont Pontcysyllte a Phont Cysyllte, 1826**
© Courtesy of Institution of Civil Engineers

## W. K Fuge

W. K Fuge
**Rhaeadr Y Bedol, 1894**
© NE Wales Archives (Hawarden)



Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Taflen Adlewyrchu ar Waith Celf

Mae ymchwilio i baentiadau yn ein helpu i ddysgu mwy am yr artist a'r byd o'u hamgylch. Defnyddiwch y daflen hon i ystyried y paentiad rydych yn edrych arno.



**Enw'r Artist**

**Enw'r Paentiad**

Disgrifiwch y gwaith celf hwn yn eich geiriau eich hun.


Beth sydd yn y llun?

Sut mae'n gwneud i chi deimlo?

Beth fyddech chi'n gofyn i'r artist?

Beth ydych chi'n meddwl sy'n dda am y paentiad?

Oes unrhyw beth nad ydych chi'n hoffi am y paentiad?



Sylwadau ychwanegol